


# Fframwaith Rheoli Risg

Ionawr 2026

Dod o hyd i ni ar

CYNGOR Sir y Fflint
Flintshire COUNTY COUNCIL




# Cynnwys


| | | TUDALEN |
|---|---|---|
| Rheoli Dogfen | | 3 |
| Pwrpas y ddogfen hon | | 4 |
| **1.0** | Cyflwyniad | 4 |
| **2.0** | Polisi cyfreithiol a chyd-destun | 5 |
| **3.0** | Beth yw rheoli risg? | 6 |
| **4.0** | Beth yw risg? | 6 |
| **4.1** | Mathau o risg | 6 |
| **4.2** | Cofrestrau risg | 7 |
| **5.0** | Proses rheoli risg | 7 |
| **5.1** | Matrics risg | 10 |
| **5.2** | Parodrwydd i dderbyn risg | 11 |
| **6.0** | Cyfathrebu ac adrodd | 15 |
| **6.1** | Pryd mae angen uwchgyfeirio/ dad-uwchgyfeirio risg | 15 |
| **7.0** | Rolau a chyfrifoldebau | 17 |
| **8.0** | Rhagor o wybodaeth | 19 |
| **9.0** | Atodiad a - Tosolwg o adrodd ar risg | 20 |

# Rheoli Dogfen

## TROSOLWG

| | |
|---|---|
| **Teitl** | Fframwaith Rheoli Risg |
| **Perchennog** | Rheolwr Archwilio Mewnol, Perfformiad a Risg |
| **Cyswllt Enwebedig** | Lisa Brownbill (Lisa.brownbill@flintshire.gov.uk) |
| **Adolygwyd gan** | Y Rheolwr Archwilio Mewnol, Perfformiad a Risg |
| **Dyddiad yr Adolygiad Diwethaf** | Rhagfyr 2025 |
| **Dyddiad yr Adolygiad Nesaf** | Rhagfyr 2026 |
| **Dogfennau Perthnasol** | Rheoli Risg - Canllaw i Ddefnyddwyr InPhase |

## HANES ADOLYGU

| Fersiwn | Dyddiad Cyhoeddi | Awdur | Crynodeb o'r Newidiadau |
|---|---|---|---|
| 1 | **Mawrth 2020** | Ymgynghorydd Perfformiad Strategol | Dogfen ganllaw newydd |
| 2 | **Chwefror 2021** | Ymgynghorydd Perfformiad Strategol | Cynnwys y weithdrefn uwchgyfeirio |
| 3 | **Medi 2022** | Ymgynghorydd Perfformiad Strategol | Adolygiad a diweddariad addas i bwrpas |
| 3.1 | **Tachwedd 2022** | Ymgynghorydd Perfformiad Strategol | Gwybodaeth ychwanegol |
| 4 | **Rhagfyr 2023** | Ymgynghorydd Perfformiad Strategol | Adolygiad blynyddol yn dilyn cyflwyno InPhase |
| 5 | **Rhagfyr 2024** | Ymgynghorydd Perfformiad Strategol | Adolygiad blynyddol. Ychwanegwyd adrannau newydd (Adran 1.0 a 3.0). Diwygiadau i Adrannau 2.0, 5.1, 6.0, 8.1, 9.2 a 9.4 |
| 6 | **Rhagfyr 2025** | Arweinydd Tîm Risg a Pherfformiad | Adolygiad blynyddol. Diweddariad yn cynnwys amlder adolygiadau, ymatebion i risg a newidiadau i'r meini prawf effaith ariannol a'r Model 3 Llinell |

## YMGYNGHORIAD

| Fersiwn | Pwy | Dyddiad |
|---|---|---|
| 1 | Arweinwyr Perfformiad | 17 Ionawr 2020 |
| 2 | Tîm y Prif Swyddogion2 | 6 Chwefror 2021 |
| 3 | Tîm y Prif Swyddogion1 | 6 Awst 2022 |
| 3 | Arweinwyr Perfformiad | 21 Medi 2022 |
| 4 | Arweinwyr Perfformiad a Thîm y Prif Swyddogion | Rhagfyr 2023 |
| 5 | Arweinwyr Perfformiad a'r Prif Weithredwr | Rhagfyr 2024 |
| 6 | Arweinwyr Perfformiad a Thîm y Prif Swyddogion | Rhagfyr 2025 |

## CYMERADWYAETH

| Fersiwn | Pwy | Dyddiad |
|---|---|---|
| 1 | Tîm y Prif Swyddogion | 26 Chwefror 2020 |
| 2 | Tîm y Prif Swyddogion | 20 Ionawr 2021 |
| 3 | Tîm y Prif Swyddogion | 16 Awst 2022 |
| 3 | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | 14 Tachwedd 2022 |
| 3.1 | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio - Gwybodaeth ychwanegol | 14 Tachwedd 2022 |
| 4 | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | 24 Ionawr 2024 |
| 5 | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | 22 Ionawr 2025 |
| 6 | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | 21 Ionawr 2026 |

# Pwrpas y ddogfen hon

Diben y ddogfen hon yw rhoi amlinelliad o egwyddorion allweddol a manteision rheoli risg yn effeithiol yng Nghyngor Sir y Fflint (y Cyngor).

Y nod yw:

- Darparu canllawiau i weithwyr, er mwyn sicrhau bod dull cyson ar gyfer rheoli risg ar draws y Cyngor.
- Egluro rolau a chyfrifoldebau o ran rheoli risg.
- Sicrhau yr ymatebir i risgiau mewn modd priodol, yn unol â pharodrwydd y Cyngor i dderbyn risg.
- Cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau effeithiol a gwybodus.

# 1.0 Cyflwyniad

Nod y Cyngor yw cyflawni ei amcanion a gwella canlyniadau ar gyfer preswylwyr. Fel bod modd i'r Cyngor fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd a lleihau effaith risgiau, mae angen iddo allu nodi, asesu a rheoli risgiau yn effeithiol. Mae elfen o risg bob amser ym mhopeth a wnawn ac mae gwerth sylweddol mewn rheoli risg:

- Mae'n rhan hanfodol o lywodraethu
- Mae'n llywio penderfyniadau busnes
- Mae'n gwella cynlluniau strategol a busnes
- Mae'n cryfhau cynlluniau wrth gefn

Bydd y fframwaith hwn yn amlinellu:

- Dull y Cyngor ar gyfer rheoli risg
- Dull y Cyngor ar gyfer dynodi, asesu, rheoli a monitro risg
- Rolau a chyfrifoldebau

Cydnabyddir nad yw'n bosibl dileu pob risg, ond mae'n rhaid cael rheolyddion ar waith i reoli a lleihau effaith a/neu debygolrwydd risg i lefel dderbyniol, yn unol â pharodrwydd y Cyngor i dderbyn risg.

# 2.0 Polisi cyfreithiol a chyd-destun

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am nifer o rwymedigaethau statudol ac mae rheoli risg yn rhan allweddol o gydymffurfio â'r rhain. Bydd nifer o bolisïau a deddfwriaethau cyfreithiol perthnasol eraill y mae'n rhaid i'r Cyngor eu hystyried, ond un darn allweddol o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â risg yw: [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015]


Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi'r uchelgais, caniatâd a'r rhwymedigaeth gyfreithiol i ni i wella ein lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn mynnu bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn meddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl, cymunedau, a gyda'i gilydd, er mwyn atal problemau cyson fel anghydraddoldeb iechyd, tlodi a newid hinsawdd.

Dan y Ddeddf, mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried y saith nod lles a'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy, h.y. mae'n rhaid i ni fodloni anghenion heddiw heb gael effaith ar y dyfodol, gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio.

1. Cydbwyso'r angen tymor byr â'r angen hirdymor a chynllunio i'r dyfodol
2. Cydweithio â phartneriaid eraill i ddarparu amcanion
3. Cynnwys pawb sydd â diddordeb a cheisio eu barn
4. Buddsoddi adnoddau er mwyn atal problemau rhag codi neu waethygu
5. Integreiddio nodau lles gyda chyrff eraill sy'n gwneud gwaith tebyg

Trwy wneud hyn, bydd y Cyngor hefyd yn gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru ac yn cynyddu cyfraniadau at y saith Nod Lles cenedlaethol.



# 3.0 Beth yw rheoli risg?

Rheoli risg yw'r broses o ddynodi risgiau, asesu'r effaith bosibl a'r tebygolrwydd y bydd y risg yn digwydd, pennu'r ymateb priodol i risg a monitro effeithiolrwydd rheolyddion a chamau gweithredu i reoli'r risg. Mae rheoli risg yn amhrisiadwy i'r Cyngor a dylai fod yn rhan o'r gwaith o reoli gwasanaeth o ddydd i ddydd. Mae rhai o fanteision rheoli risg yn cynnwys:

- Atal difrod i enw da.
- Gwneud penderfyniadau deallus.
- Cyflawni amcanion yn well a chynllunio ar gyfer y dyfodol yn llwyddiannus.

# 4.0 Beth yw risg?

Diffinnir risg fel a ganlyn: **y posibilrwydd y bydd digwyddiad yn digwydd ac yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar y sefydliad.** Mesurir 'risg' drwy asesu'r 'tebygolrwydd' y bydd y digwyddiad yn digwydd a'r 'effaith'.

## 4.1 Mathau o risg

Mae pedwar prif fath o risg yn y Cyngor, sef:

- **Strategol** risg a allai gael effaith ar allu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion strategol hirdymor neu ei allu i gyflawni ei ddyletswyddau statudol.
- **Gweithredol** risg a allai gael effaith ar y ddarpariaeth gwasanaeth o ddydd i ddydd.
- **Rhaglen** risg a allai effeithio ar gyflawniad nifer o brosiectau o fewn rhaglen, gan felly effeithio ar gyflawni'r rhaglen.
- **Prosiect** risg sy'n atal gallu'r Cyngor i ddarparu prosiect yn llwyddiannus.

## 4.2 Cofrestrau risg

Defnyddir cofrestrau risg fel adnodd ar gyfer cofnodi'r holl risgiau sydd wedi'u dynodi ac, yn y Cyngor, ceir tri math o gofrestrau risg:


- **Corfforaethol** mae cofrestr risgiau gorfforaethol yn dynodi risgiau strategol sylweddol ac mae Tîm y Prif Swyddogion a'r Cabinet yn rheoli'r rhain.
- **Portffolio** mae cofrestr risg portffolio'n dynodi risgiau strategol, gweithredol a phrosiect ac yn cael eu rheoli gan y Portffolio.
- **Gwasanaeth** mae cofrestr risg gwasanaeth yn dynodi risgiau gweithredol a phrosiect ac yn cael eu rheoli gan y Rheolwr Gwasanaeth / Tîm.

## 5.0 Proses rheoli risg

Mae rheoli risg yn broses barhaus ac fe'i gwneir yn aml mewn dilyniant o bedwar cam allweddol:

**Y pedwar cam allweddol:**

1. **Dynodi**
2. **Asesu**
3. **Camau Rheoli**
4. **Monitro ac Adolygu**



# Cam 1: **Dynodi**

Mae dynodi risgiau yn broses barhaus sy'n dynodi risgiau a allai atal cyflawniad ein hamcanion yng Nghynllun y Cyngor, cynlluniau portffolio, cyflawniad prosiectau, partneriaethau a darpariaeth gwasanaeth. Gellir dynodi risgiau'n fewnol yn ystod y broses gynllunio, hunanasesiadau a monitro perfformiad. Gellir eu hadnabod hefyd drwy archwiliadau mewnol ac adroddiadau Archwilio Cymru ac adroddiadau gan reoleiddwyr eraill. Mae yna lawer o ffactorau allanol a allai effeithio ar amcanion strategol y Cyngor ac mae defnyddio'r dadansoddiad PESTEL (Gwleidyddol, Economaidd, Cymdeithasol, Technolegol, Amgylcheddol, Cyfreithiol) yn ddull effaith i sicrhau y rhoddir ystyriaeth i bob ffactor o fewn yr holl gategorïau. Ceir enghreifftiau o'r ffactorau ym mhob categori isod.

**GWLEIDYDDOLL**



- Etholiadau a Rolau Aelodau
- Newidiadau'r Llywodraeth
- Newid i Bolisi Cenedlaethol

**ECONOMAIDD**



- Cyllid
- Grantiau
- Twf Lleol
- Masnach
- Ymrwymiad ariannol

**CYMDEITHASOL**



- Amddifadedd
- Iechyd
- Adnoddau
- Cefnogaeth gymunedol
- Gofal Cymdeithasol

**TECHNOLEGOL**



- Trawsnewid
- Anghydraddoldeb digidol
- Mudo data
- Llywodraethu gwybodaeth
- Seiber

**AMGYLCHEDDOL**



- Newid hinsawdd
- Trwydd eithafol
- Bioamrywiaeth
- Effeithlonrwydd ynni

**CYFREITHIOL**



- Newid rheoleiddiol
- Cydymffurfiaeth
- Dyletswyddau statudol
- Cyfreithiau

Unwaith y bydd risg wedi'i dynodi, dylid ei hychwanegu at y gofrestr risg briodol yn InPhase (system rheoli perfformiad a risg y Cyngor) a chynnwys disgrifiad neu ddatganiad risg sy'n diffinio'r risg yn glir.

Ar gyfer pob risg a ddynodir, **RHAID** cael perchennog risg. Yr unigolyn hwn sy'n gyfrifol am fonitro ac uwchgyfeirio/ dad-uwchgyfeirio'r risg.

Wrth feddwl am ddynodi risg, dylid ystyried defnyddio'r datganiad a ganlyn:

Gallai'r **(digwyddiad)** hwn ddigwydd oherwydd **(achos)** a allai arwain at yr **(effaith)** ganlynol ar ein hamcanion.

# Cam 2: **Asesu**

Mae angen asesu'r canlynol er mwyn pennu lefel y risg:

Fel arfer, mae risg yn cael ei mesur drwy:

- **Effaith** pa mor ddifrifol fyddai'r canlyniadau os byddai'r risg yn digwydd.
- **Tebygolrwydd** pa mor debygol ydyw y bydd y risg yn digwydd.

Mae'r tabl isod yn darparu canllaw wrth asesu'r sgôr effaith a'r sgôr tebygolrwydd.

## DIFRIFOLDEB EFFAITH

| Sgôr Effaith | Darparu Gwasanaeth | Ariannol | Enw Da | Cyfreithiol |
|---|---|---|---|---|
| 1 Annhebygol | Dim effaith amlwg | Gwariant neu golli incwm hyd at £50,000 | Adolygiad mewnol | Camau cyfreithiol yn annhebygol iawn ac mae modd amddiffyn |
| 2 Cymedrol | Amhariad dros dro ar gyfer un maes gwasanaeth / oedi wrth ddarparu neu gydag un o ganlyniadau neu flaenoriaethau strategol allweddol y Cyngor | Gwariant neu golli incwm o fwy na £50,000 ond llai na £500,000 | Angen craffu mewnol i atal uwchgyfeirio | Camau cyfreithiol yn bosibl ond yn annhebygol ac mae modd amddiffyn |
| 3 Sylweddol | Amhariad i un neu fwy o wasanaethau / oedi neu ddiffyg o ran cyflawni nifer o ganlyniadau strategol allweddol neu flaenoriaethau | Gwariant neu golli incwm o fwy na £500,000 ond llai na £3 miliwn | Diddordeb gan y cyfryngau'n lleol Craffu gan bwyllgor neu gorff allanol | Disgwyl camau cyfreithiol |
| 4 Mawr | Amhariad difrifol ar lefel gwasanaeth gyda llawer o ganlyniadau neu briodoldebau strategol allweddol wedi cael eu hoedi neu'n methu cael eu darparu | Gwariant neu golli incwm o fwy na £3 miliwn ond llai na £7 miliwn | Craffu dwys gan y cyhoedd a'r cyfryngau | Camau cyfreithiol bron yn sicr o gael eu cymryd a byddai'n anodd amddiffyn |
| 5 Trychinebus | Methu darparu mwyafrif y canlyniadau strategol allweddol neu flaenoriaethau / dyletswyddau statudol ddim yn cael eu darparu | Gwariant neu golli incwm o fwy na £7 miliwn | Ymchwiliad Cyhoeddus neu sylw anffafriol yn y cyfryngau cenedlaethol | Camau cyfreithiol bron yn sicr o gael eu cymryd, methu ag amddiffyn |

## TEBYGOLRWYDD

| Sgôr Debygolrwydd | Posibilrwydd | |
|---|---|---|
| 1 Annhebygol iawn | Siawns o lai na 5% | Fe all ddigwydd mewn amgylchiadau eithriadol |
| 2 Annhebygol | | Gallai ddigwydd, ond annhebygol |
| 3 Posibl | Siawns o 50% | Siawns y gallai ddigwydd |
| 4 Tebygol | | Yn debygol o ddigwydd |
| 5 Bron yn sicr | Siawns o fwy na 95% | Tebygol iawn o ddigwydd |

Unwaith y bydd sgôr effaith y risg a sgôr tebygolrwydd y risg wedi'u pennu, fe’u lluosir â’i gilydd, er mwyn cyfrifo sgôr risg cyffredinol. Yna, caiff y risg ei chategoreiddio fel coch, oren, melyn neu wyrdd (COYG) fel y dangosir yn y matrics isod.

## 5.1 Matrics risg

Rhaid defnyddio'r Matrics Risg (isod) wrth gyfrifo sgôr effaith a thebygolrwydd er mwyn cael sgôr gyffredinol. Yna caiff risgiau eu categoreiddio trwy'r sgôr gyffredinol a sgôr lliw i bennu goddefgarwch risg.

**EFFAITH**
Pa mor ddifrifol fyddai’r canlyniad pe bai’r risg yn digwydd?

**TEBYGOLRWYDD**
Pa mor debygol ydyw y bydd y risg yn digwydd?

| | 1 Annhebygol | 2 Bach | 3 Cymedrol | 4 Mawr | 5 Trychinebus |
|---|---|---|---|---|---|
| 5 Bron yn sicr | Melyn 5 | Oren 10 | Coch 15 | Coch 20 | Coch 25 |
| 4 Tebygol | Melyn 4 | Oren 8 | Oren 12 | Coch 16 | Coch 20 |
| 3 Posibl | Gwyrdd 3 | Melyn 6 | Oren 9 | Oren 12 | Coch 15 |
| 2 Annhebygol | Gwyrdd 2 | Melyn 4 | Melyn 6 | Oren 8 | Oren 10 |
| 1 Annhebygol iawn | Gwyrdd 1 | Gwyrdd 2 | Gwyrdd 3 | Melyn 4 | Melyn 5 |

# 5.2 Parodrwydd i dderbyn risg

Diffinnir y parodrwydd i dderbyn risg fel faint o risg mae sefydliad yn barod i'w dderbyn neu ei oddef i gyflawni'r amcanion a fwriadwyd. Mewn sefydliad mor fawr ac amrywiol â'r Cyngor, mae'n anodd diffinio parodrwydd unigol i dderbyn risg. Bydd y parodrwydd i dderbyn risg yn amrywio yn ôl yr amcanion sydd ar y gweill yn y Cyngor, mewn ystod eang o feysydd gwasanaeth gwahanol. Tîm y Prif Swyddogion ar y cyd sydd â'r penderfyniad terfynol wrth ddewis lefel y risg y mae'r Cyngor yn barod i'w derbyn. Maent yn gwneud hynny drwy gydbwyso'r manteision a'r bygythiadau posibl gan sicrhau bod digon o reoliadau a mesurau lliniaru ar waith i fonitro a rheoli risg.

Fel sefydliad, mae'r Cyngor yn cydnabod bod yn rhaid i ni dderbyn rhywfaint o risg i gyflawni ein hamcanion. Efallai na fydd yn bosibl nac yn hyfyw yn ariannol i ddileu risgiau'n llwyr neu reoli pob risg ar unwaith ac mae'r fframwaith hwn yn rhoi amlinelliad o'r canllawiau ar gyfer pennu'r lefel risg dderbyniol. Bydd parodrwydd y Cyngor i dderbyn risg yn cael ei asesu'n barhaus mewn ymateb i'r amgylchedd y mae'n gweithredu ynddo. Mae'r Cyngor yn rheoli risg trwy feithrin diwylliant o ymwybyddiaeth o risg, cydweithio, tryloywder a heriau adeiladol.

Mae'r tabl (isod) yn amlinellu parodrwydd y Cyngor i dderbyn risg a'r ymateb sy'n ofynnol gan reolwyr ar gyfer pob lefel o risg.

| Lefel y Risg | Sgôr | Lefel y Risg | Ymateb y Rheolwyr |
|---|---|---|---|
| Gwyrdd | 1-3 | Isel iawn | Risgiau o fewn parodrwydd y Cyngor i dderbyn risg. Parhau â'r rheolyddion presennol a gellir eu monitro gan Arweinwyr Tîm/ Rheolwyr Gwasanaeth. |
| Melyn | 4-6 | Isel | Efallai y bydd angen camau lliniaru ychwanegol ar gyfer risgiau o fewn parodrwydd y Cyngor i dderbyn risg a bydd angen i'r Uwch Reolwyr eu monitro. |
| Oren | 8-12 | Canolig | Gall risgiau fod o fewn parodrwydd y Cyngor i dderbyn risg. Mae angen rhagor o gamau lliniaru a dylent gael eu monitro gan y Prif Swyddog. |
| Coch | 15-25 | Uchel | Risgiau sydd y tu hwnt i barodrwydd y Cyngor i dderbyn risg. Mae angen rhagor o gamau lliniaru ac o bosibl y bydd angen uwchgyfeirio i'r Cabinet. |

Dylai fod gan bob risg, sgôr risg bresennol, gynhenid a tharged.

- **Sgôr Risg Gynhenid -** Y sgôr cyn rhoi unrhyw reolyddion ychwanegol ar waith. Nid yw hyn yn cynnwys rheolyddion a ystyrir fel prosesau busnes fel arfer yn draddodiadol, oherwydd er bod y mesurau hyn ar waith, mae'r risg yn dal i fodoli.
- **Sgôr Risg Bresennol -** Y sgôr ar ôl rhoi mesurau rheoli ychwanegol ar waith, ar ben y rheolyddion busnes fel arfer. Dylai'r sgôr risg bresennol fod yn is na'r sgôr risg gynhenid, ond os ydynt yr un fath, mae hyn yn awgrymu nad yw'r mesurau rheoli ychwanegol yn lleihau lefel y risg.
- **Sgôr Risg Targed -** Y lefel risg dderbyniol y mae'r Cyngor yn anelu at ei chyflawni yw'r sgôr risg targed. Deallir nad oes modd lliniaru pob risg yn llwyr ond bod yn rhaid eu rheoli i lefel dderbyniol. Mewn amgylchiadau eithriadol, gall y sgôr risg targed fod y tu hwnt i barodrwydd y Cyngor i dderbyn risg. Gallai hyn fod oherwydd ffactorau allanol, sydd y tu hwnt i reolaeth y Cyngor. Mewn achosion o'r fath, dylid gweithredu rhagor o gamau lliniaru i reoli'r risg.

# Cam 3: **Camau rheoli**

Pan fydd risg wedi'i dynodi a'i hasesu, y cam nesaf yw ystyried y ffordd orau o reoli'r risg.


Mae'n bwysig ystyried yr adnoddau (cyllid, pobl, technoleg, cyfathrebu) sydd eu hangen i liniaru'r risg a pha mor effeithiol ac amserol fydd y camau gweithredu. Cwestiwn allweddol i'w ofyn yw: beth ydym ni'n mynd i'w wneud yn ei gylch? Mae pedwar dull ymateb i'w hystyried:

- **Trin** - Nodi camau gweithredu ychwanegol i leihau'r effaith a/neu'r tebygolrwydd y bydd risg yn digwydd. Dylai camau gweithredu fod yn glir ac yn benodol, wedi'u dyrannu i swyddog ac â therfyn amser.
- **Derbynio** - Rheoli'r risg gan ddefnyddio rheolyddion a phrosesau mewnol presennol. Nid oes angen unrhyw gamau ychwanegol i leihau'r effaith na'r tebygolrwydd. Dim ond pan fydd y sgôr risg gyfredol wedi cyflawni'r sgôr risg targed ac o fewn parodrwydd y Cyngor i dderbyn risg y mae'r ymateb hwn yn briodol. Mewn rhai achosion, efallai na fydd yn ariannol hyfyw nac yn bosibl lleihau'r risg a rhaid i ni dderbyn/ goddef lefel y risg. Dylai'r sgôr risg targed adlewyrchu'r rhain.
- **Trosglwyddo** - Trosglwyddo'r risg i drydydd parti er enghraifft, darparwr gwasanaeth yswiriant neu gontract.
- **Terfynu** - Dod â'r gweithgaredd sy'n achosi'r risg i ben.

Fel rhan o unrhyw broses o reoli risg, mae'n bwysig sicrhau bod rheolyddion mewnol o fewn meysydd gwasanaeth wedi'u cynllunio i sicrhau eu bod yn lliniaru risgiau.

Mae'r model Sicrwydd Tair Llinell (graffig isod) yn dangos y strwythur o ran cyfrifoldeb am reolaeth fewnol a rheoli risg o fewn y sefydliad.

## Model Sicrwydd Tair Llinell



# Cam 4: **Monitro ac adolygu**

Dylid cwblhau adolygiadau risg a monitro risg yn rheolaidd, fel rhan o'r broses rheoli risg. Dylai perchnogion risg adolygu'r canlynol:

1. **Sgorau risg** - asesu effaith y risg bresennol a sgorau tebygolrwydd.
2. **Prosesau/ rheolyddion mewno** - a yw'r rheolyddion a'r prosesau mewnol yn cael eu gweithredu?
3. **Camau lliniaru risg** - a ydyn nhw ar y trywydd iawn ac yn cael yr effaith a ddymunir ar y risg?

Dylid defnyddio'r meini prawf canlynol i bennu'r amlder adolygu priodol ar gyfer pob risg:

**Amlder Adolygu Risg**

| Lefel y Risg | Sgôr Risg | Cofrestr Risg | Amlder Adolygu |
|---|---|---|---|
| Coch | 15-25 | Corfforaethol/Portffolio/ Gwasanaeth | Yn fisol |
| Oren | 8-12 | Corfforaethol/Portffolio/ Gwasanaeth | Yn fisol |
| Melyn | 4-6 | Corfforaethol/Portffolio/ Gwasanaeth | Bob chwarter |
| Gwyrdd | 1-3 | Corfforaethol/Portffolio/ Gwasanaeth | Dwywaith y flwyddyn |

Dylid trafod a monitro risgiau'n rheolaidd mewn cyfarfodydd tîm, portffolio a gwasanaeth, er mwyn dynodi risgiau newydd ac asesu a yw'r rheolyddion/ prosesau mewnol a'r camau lliniaru sydd ar waith ar hyn o bryd i reoli risgiau yn ddigonol.

# 6.0 Cyfathrebu ac adrodd

Mae cyfathrebu effeithiol yn allweddol o ran rheoli risg. Dylid trafod risgiau ar bob cam yn y broses rheoli risg. Anogir ymgysylltu a chydweithio â budd-ddeiliaid, er mwyn rhannu arbenigedd a sicrhau y rhoddir ystyriaeth i safbwyntiau gwahanol. Mae'n bwysig rhannu'r lefel briodol o wybodaeth am risg gyda budd-ddeiliaid, er mwyn meithrin cyd-ddealltwriaeth o risg o fewn y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys adroddiadau ffurfiol ar y lefel reoli briodol, fel bod modd gwneud penderfyniadau gwybodus, sicrhau tryloywder ac atebolrwydd. Darperir adroddiadau ar y gofrestr risgiau gorfforaethol i'r Tîm o Brif Swyddogion, y Cabinet a'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu bob chwarter ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn flynyddol. Darperir adroddiadau ar gofrestrau risg portffolio bob mis i Brif Swyddogion.


## 6.1 Pryd mae angen uwchgyfeirio/ dad-uwchgyfeirio risg

Mae angen uwchgyfeirio risg:

- Pan nad yw'r rheolyddion presennol yn gallu gostwng y risg i lefel dderbyniol ac mae angen rheolyddion ychwanegol ar y lefel reoli nesaf h.y. uwchgyfeirio risg gwasanaeth i gofrestr risg portffolio, neu risg portffolio i'r gofrestr risgiau gorfforaethol.

Mae angen dad-uwchgyfeirio risg:

- Pan fydd sgôr risg wedi gostwng i lefel dderbyniol a bod modd ei reoli ar y lefel briodol h.y. mae risg gorfforaethol bellach yn cael ei rheoli ar lefel portffolio, neu mae risg portffolio bellach yn cael ei rheoli ar lefel gwasanaeth.



Mae’r diagram isod yn rhoi trosolwg o’r rolau a chyfrifoldebau pan fydd risg a uwchgyfeiriwyd yn cael ei dynodi.

**Perchennog y Risg**

Yn gyfrifol am uwchgyfeirio risgiau at Uwch Dimau Rheoli pan na ellir eu lliniaru, neu reoli / gostwng eu sgoriau neu pan fydd risg newydd yn cael ei dynodi

**Tîm Perfformiad a Rheoli Risg**

Cyfrifoldeb am adrodd yn fisol am eithriadau i Dîm y Prif Swyddogion. Mae’r adroddiad risg yn rhoi trosolwg o’r Proffiliau Risg, pob risg goch a rhai sy’n dirywio.

Adroddiadau misol i Brif Swyddogion mewn perthynas â’u Cofrestrau Risg Portffolio.

**Uwch Dîm Rheoli / Tîm Portffolio**

Yn gyfrifol am uwchgyfeirio at y Prif Swyddog Gweithredol / Tîm y Prif Swyddogion os na ellir lliniaru’r risg neu reoli / gostwng ei sgôr.

**Prif Swyddog Gweithredol / Tîm y Prif Swyddogion**

Yn gyfrifol am uwchgyfeirio at y Cabinet a Phwyllgorau Trosolwg a Chraffu pan fyddant yn credu bod y risg ar ei ffurf bresennol / ffurf a ragwelir o arwyddocâd corfforaethol.

# 7.0 Rolau a chyfrifoldebau

Mae pawb yn y Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod risgiau a chyfleoedd yn cael eu dynodi a'u rheoli ar bob lefel lywodraethu.
Mae'r tabl isod yn egluro'r prif rolau a chyfrifoldebau mewn rhagor o fanylder i sicrhau rheolaeth risg effeithiol o fewn y Cyngor, gan ystyried y Cyfansoddiad.

| Trefniadau Llywodraethu, Rolau Aelodau a Swyddogion | Disgrifiad o'r Rolau a Chyfrifoldebau |
|---|---|
| Aelodau Cabinet | • Sicrhau bod risgiau a chyfleoedd y Cyngor yn cael eu rheoli'n effeithiol, a bod rheolyddion a threfniadau llywodraethu yn ddigonol er mwyn monitro risgiau strategol<br>• Gosod y lefel briodol o'r parodrwydd i dderbyn risg ar gyfer y Cyngor<br>• Adolygu Cofrestr Risgiau Gorfforaethol lawn y Cyngor bob chwarter<br>• Sicrhau bod pob risg yn cael ei hasesu'n llawn ac yr ymgynghorir arnynt wrth wneud penderfyniadau strategol<br>• Goruchwyliaeth wleidyddol a chyfrifoldeb am y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol<br>• Cwblhau'r modiwl E-ddysgu Rheoli Risg |
| Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu | • Herio manylion risgiau unigol yn ymwneud â blaenoriaethau Cynllun y Cyngor er enghraifft, neu risg sy'n benodol i wasanaeth/swyddogaeth<br>• Adroddiadau chwarterol am y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol i Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu unigol yn herio manylion risgiau sy'n benodol i'w swyddogaethau craffu<br>• Hyrwyddo'r defnydd o reoli risg i lywio'r broses o wneud penderfyniadau strategol effeithiol<br>• Cwblhau'r modiwl E-ddysgu Rheoli Risg |
| Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | • Adolygu effeithiolrwydd Fframwaith Rheoli Risg, prosesau a systemau'r Cyngor<br>• Blaengynllunio gwaith yn effeithiol ar gyfer rheoli risg<br>• Derbyn adroddiad proffil parodrwydd i dderbyn risg ar y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol ddwywaith y flwyddyn<br>• Trosolwg lefel uchel o risgiau a uwchgyfeiriwyd a rhai sy'n dirywio fel rhan o'r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol<br>• Ystyried a chymeradwyo adolygiadau blynyddol o'r Fframwaith Rheoli Risg<br>• Galw Perchnogion Risg / Uwch Reolwyr i mewn pan fydd pryderon yn codi am risg gorfforaethol<br>• Cwblhau'r modiwl E-ddysgu Rheoli Risg |
| Tîm y Prif Swyddogion | • Tîm y Prif Swyddogion sy'n berchen ar y broses rheoli risg ac yn ei harwain<br>• Gweithredu'r broses rheoli risg a pholisïau cysylltiedig<br>• Sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli, eu monitro a'u hadolygu o fewn eu rolau statudol perthnasol<br>• Gosod rheolyddion rheoli risg strategol ar gyfer unrhyw fentrau, prosiectau a chynlluniau gweithredu |

| Trefniadau Llywodraethu, Rolau Aelodau a Swyddogion | Disgrifiad o'r Rolau a Chyfrifoldebau |
|---|---|
| Tîm y Prif Swyddogion | • Trafod lefel briodol y risg ar gyfer y Cyngor (parodrwydd i dderbyn risg)<br>• Dynodi ac asesu lefelau risg<br>• Herio canlyniadau rheoli risg<br>• Monitro ac adolygu risgiau yn unol â'r Gweithdrefnau Gweithredol Rheoli Risg<br>• Sicrhau Cynllunio Parhad Busnes<br>• Adolygu gwybodaeth yn yr adroddiadau misol i sicrhau bod risgiau'n cael eu dynodi, eu hasesu, a'u monitro'n barhaus a bod uwchgyfeirio'n digwydd<br>• Sicrhau bod yr holl risgiau'n cael eu hadolygu a'u diweddaru yn unol â Fframwaith Rheoli Risg y Cyngor<br>• Trafod a chytuno ar y risgiau y mae angen eu huwchgyfeirio a'u hychwanegu at y gofrestr risgiau gorfforaethol neu eu dad-uwchgyfeirio i gofrestrau risg portffolio<br>• Dylid uwchgyfeirio risgiau ar y gofrestr risgiau gorfforaethol a'u trafod gydag Aelodau Cabinet<br>• Cwblhau'r modiwl E-ddysgu Rheoli Risg |
| Tîm Rheoli Gwasanaeth / Adrannol | • Mae rheoli risg a'i pherchnogi yn elfen allweddol o unrhyw swydd reoli yn y Cyngor<br>• Nodi, asesu, rheoli a monitro / adrodd ar gofrestrau risg Portffolios (mae hyn yn cynnwys Cynllun y Cyngor, Busnes fel Arfer, Partneriaethau a risgiau sy'n codi) yn unol â'r Fframwaith Rheoli Risg<br>• Adolygu a rheoli'r risgiau a ddynodir, y maent yn gyfrifol amdanynt yn rheolaidd ac uwchgyfeirio risgiau sy'n gwaethygu neu'n mynd y tu hwnt i barodrwydd y portffolio i dderbyn risg<br>• Rhannu gwybodaeth berthnasol am risgiau â chydweithwyr mewn meysydd gwasanaeth eraill<br>• Dylid trafod rheoli risg yng nghyfarfodydd yr Uwch Dîm Rheoli<br>• Cwblhau'r modiwl E-ddysgu Rheoli Risg |
| Tîm Perfformiad a Rheoli Risg a'r Rheolwr Archwilio Mewnol, Perfformiad a Risg | • Sicrhau y cedwir at y Fframwaith Rheoli Risg<br>• Rhoi cyngor a chefnogaeth pan fo'n briodol<br>• Rheoli ansawdd a herio unrhyw risgiau newydd a nodwyd (os yw'n berthnasol)<br>• Darparu dangosfwrdd risg misol i bob Portffolio gyda manylion eu proffil risg<br>• Darparu proffil risg a dadansoddi patrymau i Bwyllgorau perthnasol<br>• Rhoi gwybod i Brif Swyddogion am risgiau newydd neu rai sy'n cael eu huwchgyfeirio<br>• Darparu adroddiad cofrestr risgiau gorfforaethol chwarterol i Dîm y Prif Swyddogion, y Cabinet a'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu<br>• Datblygu a darparu hyfforddiant ar gyfer y system rheoli perfformiad a risg fel adnodd ar gyfer rheoli risg<br>• Adolygiad blynyddol o'r Fframwaith Rheoli Risg a'r weithdrefn fewnol berthnasol<br>• Adolygu cofrestrau risg portffolio yn rheolaidd, er mwyn codi ymwybyddiaeth o risg ac ymgorffori rheolaeth o risgiau |

| Trefniadau Llywodraethu, Rolau Aelodau a Swyddogion | Disgrifiad o'r Rolau a Chyfrifoldebau |
|---|---|
| Perchnogion Risg | • Yn gyfrifol am reoli a monitro risg benodol (mae pob risg yn y gofrestr risg portffolio yn cael ei neilltuo i berchennog risg)<br>• Sicrhau bod adnoddau a phwysigrwydd priodol yn cael eu dyrannu i'r risgiau y maent yn berchen arnynt<br>• Cadarnhau bod ganddynt reolyddion ar y gweill, a'u heffeithiolrwydd a sicrhau bod unrhyw gamau lliniaru pellach yn cael eu rhoi ar waith yn ôl yr angen<br>• Uwchgyfeirio risgiau sy'n mynd y tu hwnt i'r parodrwydd i dderbyn risg a gytunwyd gyda'u rheolwr<br>• Darparu sicrwydd bod y risgiau y maen nhw'n berchennog risg arnyn nhw yn cael eu rheoli'n effeithiol<br>• Rhoi gwybod am unrhyw risgiau sy'n dirywio i'r Uwch Dîm Rheoli / Adrannol<br>• Cwblhau'r modiwl E-ddysgu Rheoli Risg |
| Arweinwyr Perfformiad | • Gweithredu'r broses rheoli risg a pholisïau cysylltiedig yn effeithiol o fewn eu Portffolio<br>• Sicrhau bod risgiau'n cael eu dynodi, eu hasesu, eu rheoli, eu monitro, eu hadrodd a'u huwchgyfeirio'n barhaus o fewn eu Portffolio<br>• Sicrhau bod yr holl risgiau'n cael eu diweddaru yn unol â Fframwaith Rheoli Risg y Cyngor<br>• Yn gyfrifol am gael trosolwg o risgiau'r Portffolio a'r defnydd o'r System Perfformiad a Rheoli Risg<br>• Pan fydd angen i risg weithredol ddod yn risg strategol, tynnir sylw Tîm y Prif Swyddogion at hyn a bydd yn cael ei pherchnogi'n gorfforaethol fel risg gorfforaethol os yw'n briodol |
| Tîm Archwilio Mewnol | • Adolygu risgiau'r Cyngor o dro i dro (risgiau strategol, gweithredol a phrosiect)<br>• Rhannu canfyddiadau adroddiad archwilio gyda'r Tîm Rheoli Risg a Pherfformiad |
| Pob Gweithiwr | • Cynnal ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o risg yn eu gweithle<br>• Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau rheoli risg y Cyngor<br>• Rhoi gwybod i'w rheolwr atebol am unrhyw risg a nodwyd a chamau arfaethedig i'w lliniaru<br>• Adrodd am unrhyw ddigwyddiad i'w rheolwr atebol, trafod y risgiau posibl a allai godi a chytuno ar y rhai y mae angen eu cynnwys ar gofrestr risg |

# 8.0 Rhagor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth mewn perthynas â'r fframwaith hwn, cysylltwch â'r Tîm Rheoli Perfformiad a Risg PRM@flintshire.gov.uk

# 11.0 Atodiad a - Trosolwg o adrodd ar risg

